



Llais Y Derwent

Hydref 2013

Papur Bro i Ddysgwyr Cymraeg Canolbarth Lloegr

Pris 25c



Croeso yn ôl

Mae'r amser wedi hedfan, ac mae'r haf, bellach, wedi mynd heibio. Gobeithio cawsoch chi i gyd amser braf. Yn bendant mi wnes i fwynhau sawl wythnos yng Nghymru fach. Ym mis Mehefin mi wnes i dreulio wythnos efo fy ngwraig yn aros mewn bwthyn ger Rhydyclafdy y tu allan i Bwllheli. Roedd y tywydd yn braf ac mi ges i hwyl wrth bori cynnwys y siopau elusennol lleol ym Mhwlheli a Chriccieth. Pan des i yn ôl i Belper roedd llwyth o lyfrau Cymraeg yn y car!

Yn ystod Mis Gorffennaf mi ges i groeso mawr gan rhai o ddysgwyr ardal Dolgellau pan es i ar gwrs Ysgol Haf Dolgellau. Mae'r Ysgol yn cael ei drefnu gan Ganolfan Cymraeg i oedolion Canolbarth Cymru. Diolch iddynt am wythnos ddiddorol. Yr oedd Martin Coleman a finnau'n aros ar safle gwrsyllfa ger hen ffermdy Dolgun Uchaf. Gyda'r nos yr oeddwn fynd i gwrdd â rai dysgwyr lleol ar daith cerdded ar hyn 'Precipace Walk' ac wedyn am bryd o fwyd gyda dysgwraig lleol sy'n byw mewn ffermdy yn Llanfachreth. Beth sy'n ddiddorol am y ddysgwraig yma yw'r ffaith bod ei theulu hi i gyd yn dysgu'r hen iaith, sef ei gŵr hi, ei ddwy ferch hi a hyd yn oed ei mam,

sy'n byw ger Malvern. Felly cafodd Martin a fi'r pleser o fwyd blasus a sgwrs Cymraeg trwy'r nos. Pan oedd Martin a fi yn yr ardal yr oedden ni hefyd yn gallu ymweld ag ambell tafarn, siop llyfr, a Chaffi. Roedd pobl ddiddorol ymhlith y bobl ar y cwrs hefyd, gan gynnwys y ferch o Portsmouth a wnaeth ennill cystadleuaeth S4C Cariad@iaith eleni.

Y trip olaf oedd wythnos yr eisteddfod, er gwaethaf faith bod neb yn deilwng o'r gadair eleni yr oedd hi'n Eisteddfod wych ac roedd nifer fawr o Ddysgwyr Canolbarth Lloegr yn bresennol ar faes y Brifwyl. Roedd Parti SSIW ar brynawn Dydd Mawrth yn hyfryd ac roedd hi'n braf cael siarad â dysgwyr o Kings Lynn, Manceinion, Rhydychen a Chymru. Gobeithio mi fydd Eisteddfod Llanelli ym 2014 cystal ag Eisteddfod Dinbych.

Mae'r gwersi a gweithgareddau Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby ar fin ailddechrau, mae'r rhaglen ar gael i lawr llwytho oddi wrth ein gwefan. Hefyd mae grwpiau ymarfer SSIW yn cwrdd yn fisol yn Leeds, Manceinion, Solihull, Cannoch a nifer o drefi a dinsoedd de Lloegr. Mae'r manylion cyswllt i'w gweld ar safle SSIW a hefyd ar lein ar Facebook. Gwelir safle FB Menter Iaith Lloegr.

Yn olaf paid ag anghofio Ysgol Undydd Derby sy'n cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn 19 o Hydref. Dewch yn llu.

Jonathan Simcock



Cylchdaith ym Mherfedd y Wlad.

Cyfarchion unwaith eto i ddarllenwyr Llais y Dderwent oddiwrth Cymry Nottingham. Hefyd dyma gyfle i ddiolch i Jonathan am ei frwdfrydedd yn cyhoeddi Llais Y Dderwent. Cefais flas aruthrol ar y rhifyn diwetha'. Mae'n rhoi cyfle i ni'r ysgrifennwyr i esgus fod yn Checkhov neu Tolstoy neu hyd yn oed T H Parry - Williams.

Tro yma tynnais fantell grefyddol dros fy mhen. Bu'r wraig a minnau yn aros am ychydig ddyddiau gyda fy mrawd Eirwyn, a fy chwaer-yng-nghyfraith, Mis Awst 2012 yn eu cartref ger Llandeilo yn Shir Gâr. A dyna ni'n pedwar yn mynd am gylchdaith yn y car un diwrnod **heulog**, peth annisgwyl yn haf gwlyb 2012, - taith o rhyw gan milltir. I ddechrau, dilyn yr A40 tua Llanymddyfri a wedyn troi tuag at Lyn Brienne, y gronfa ddwr enfawr ym mlaenau'r afon Tywi, cyn galw i mewn i weld hen gapel Soar y Mynydd yn agos at pen ucha'r gronfa. O fan hynny dros y mynydd i Dregaron, a ciniawa yn nhafarndy'r Talbot cyn troi i'r gogledd dwyrain i weld adfeilion abaty Ystrad Fflur. Wedyn teithio tua thre drwy Aberaeron a Llamed.



Mae Soar y Mynydd ag Ystrad Fflur yn cynrychioli dwy elfen grefyddol dra wahanol yn hanes Cristnogaeth yng Nghymru. Capel bach gweddol diaddurn yw Soarr, capel a deiladwyd gan y Methodistiaid Calfinaidd yn 1825. Y peth sydd yn ei wneud mor adnabyddus drwy Gymru gyfan yw ei leoliad. Adeiladwyd mewn pant ynghanol unigeddau fynyddig i'r de dwyrain o Dregaron; hyd at 50au y ganrif ola' arferai ffermwyr a'u teuluoedd ddod i'r capel

yn weddol niferus ar draed neu ar gefn eu cefylau i addoli yn y capel bach; wrth i mi eistedd yn un o'r seti hawdd oedd dychmygu clywed y ceffylau yn cyffro yn y stabal gyfagos ac ambell i ddafad mwy anturus na'r cyffredin yn brefi wrth y drws ar brynhawn Sul wrth i'r pregethwr draethu ei bregeth. Cynhaliwyd ysgol yn yr ystafell sydd ynghlwm wrth y capel tan y flwyddyn 1947. Mae'n debyg mai gaeaf caled 1947 a'r eira mawr oedd yr ergyd farwol i llawer o'r ffermydd oddiamgylch ac erbyn heddiw adfeilion i'w llawer o'r hen ffermdai yn yr ardal; gwerthwyd rhan helaeth o'r tir amaethyddol yn yr ardal i'r comisiwn fforestydd. Cynhelir oedfa o hyd yn y capel bach unwaith y mis drwy gydol yr haf.

A nawr adfaelion abaty Ystrad Fflur, neu Strata Florida i ddefnyddio'r enw Lladin. Dechreuwyd adeiladu yr abaty tua 1188 OC gan y Sistersiaid ; ac mae mewn man tawel gwledig nepell o'r dref fechan Pontrhydfendigaid. Gyda llaw os oes gennych ddiddordeb yn enwau llefydd Cymru, onid yw Pontrhydfendigaid yn enw hyfryd? Tarddwyd y mudiad Sisertiaidd yn Ffrainc yn yr unfed ganrif ar ddeg; parhaodd yr abaty hyd at y diddymiad mawr dan frenhiniaeth Harri'r 8ed yn y 1540au. Mewn gwirionedd erbyn hynny roedd dylanwad a nerth y fynachlog eisioes wedi lleihau. Dim ond chwech abad oedd yno pan syrthiodd yr ergyd olaf. Ond yn ei amser mwyaf llewyrchus roedd yr abaty yn ganolfan gweddi, crefydd, dysg ac amaethyddiaeth i'w gymharu a rhai o'r mynachlogydd mwyaf ym Mhrydain.

Saif y porth gorllewinol yn adfail hardd o hyd ac mae llawer o dywysogion o dras teulu Dinefwr o'r oesoedd canol wedi ei claddu ym mhrid yr abaty; hefyd os yw'r chwedl yn wir mae'r bardd Dafydd ap Gwylim (c 1315 - 1350) wedi ei gladdu dan yr ywen yn y fynwent gerllaw, er fod rhai yn maentumio taw Talyllychau (Talley) yn Sir Gaerfyrddin yw man ei fedd.

Roedd y ferch a oedd yn gofalu dros y fynedfa a'r siop fach ac yn gwerthu'r tocynnau yn Ystrad Fflur yn hawddgar a chroesawus iawn ond heb air o Gymraeg; dengys hwn y perygl sydd i'r iaith hyd yn oed mewn ardal weddol Gymraeg fel Pontrhydfendigaid; mae'r un perygl wrth gwrs yn gwynebu bron pob iaith leiafrifol; rhaid brwydro dros yr etifeddiaeth! Braidd yn ddiweddar efallai yn fy mywyd rwy'n

sylweddoli fod rhaid i ni sydd yn medru 'r iaith, beth bynnag ein safon, gymryd cyfri-foldeb pesonol dros ei pharhad. Dyna ddigon o bregethu oddiwyth hen foi fel fi!



Os cewch gyfle unrhyw bryd ewch i weld Soar y Mynydd ac Ystrad Fflur; mae'r ddau leoliad yn hyfryd ac yn rhan o etifeddiaeth Gristnogol o'r famwlad. Beth gwell, i gloi, nac eich atgoffa o'r gerdd fach syml gan T Gwynn Jones a gyhoeddwyd yn gyntaf bron ganrif yn ôl ac sy'n dwyn y teitl Ystrad Fflur. Rwyf yn cofio dysgu'r darn bach hwn yn yr ysgol pan own yn blentyn tua 9 oed.

*Mae dail y coed yn Ystrad Fflur
Yn murmur yn yr awel,
A deuddeng Abad dan y gro
Yn huno yno'n dawel.
Ac yno dan yr ywen brudd
Mae Dafydd bêr ei gywydd,
A llawer pennaeth llym ei gledd
Yn ango'r bedd tragywydd.
Er bod yr haf, pan ddel ei oed,
Yn deffro'r coed i ddeilio,
Ni ddeffry dyn, a gwaith ei law
Sy'n ddistaw ymddadfeilio.
Ond er mai angof angau prudd
Ar adfail ffydd a welaf
Pan rodiwyf ddaear Ystrad Fflur
O'm dolur ymdawelaf.*

geirfa

Mantell > *mantle*; lleiafrifol > *minority*; ymddadfeilio > *crumbling*; pan ddel ei oed > *when its time comes*; deilio > *produce leaves*; ymdaweli > *to become calm*; ni ddeffry > *3rd person umigol y ferf*
(deffro: *No man will awake*; adfail > *ruin*.)

Howell Price

Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby

Ydych chi am gymryd rhan mewn Gweithgareddau Cymraeg a Chymreig? Mae'r Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby eisiau trefnu Noson Lawen i Ddysgwyr a Chymry Cymraeg Swydd Derby a Swydd Nottingham yn ystod 2013-14. Cysylltwch â Jonathan ar 01773 827513.

Am fanylion pellach ynglŷn â gweithgareddau Cylch Dysgwyr Cymraeg ewch i'n gwefan ni www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com

Bore Coffi Popeth yn Gymraeg



Mae aelodau o'r Bore Coffi Popeth yn Gymraeg Nottingham yn cwrdd bob mis mewn ardal gwahanol o'r ddinas. Am fanylion pellach cysylltwch â Gwynne ar 0115 925 9613



Codwch yn uchel - Hyd oni ddelo!

Geiriau diddorol ac adnabyddus i unrhyw Gristion sydd yn derbyn Cymundeb wrth yfed y gwin. Mae geiriau'r Apostol Paul yn dweud *gwnewch hyn er coffa amdanaf*. Ac yna yr ydych yn datgan farwolaeth yr Arglwydd, *hyd oni ddelo*, yn ol geiriau'r hen gyfieithiad! Yn aml fyddai'n meddwl ein bod ni ddim yn codi'r cwpan yn ddigon uchel i ddangos ein gwir werthfawrogiad i Dduw wrth ddatgan hyn i'n gilydd, i'r byd ac i'r holl greadigaeth!

Chi'n gweld mae hwn rhywbeth yn debyg i beth wnawn ni wrth yfed llwnc dost i rhywun arbennig gyda'n gilydd wrth godi cwpan gwin gyda'r geiriau "*cheers, hwyl, iechyd da, prost*", ac ati. Yr ydym yn tystiolaethu hefyd mae hwn yw'r peth mwyaf pwysig yn ein holl fywyd, beth ydym yn dibynnu arno ac yn cytuno yn ei gylch, ac fe wnawn ni hyn hyd iddo ddod nol eto, fel mae'n sicr o wneud. Hyder wrth edrych nol i groeshoeliad Iesu Grist, ac edrych ymlaen yn hyderus i'w ail ddyfodiad. Yn y cyfamser mi fyddwn yn datgan sail ein iachawdwriaeth. Hyd oni ddelo! Neu *hyd nes iddo ddod nol* yng ngeiriau trosiad newydd yn www.beibl.net am Corinthiaid, pen 11.

Gwynne Davies



Haf i'w Gofio

FEL mae'r hydref yn agosau, mae'n amser da i edrych yn ol ar ddiwyddiadau'r haf. Dw i'n meddwl y byddwn ni i gyd yn cytuno yr oedd y haf yn braf eleni efo ysbeidiau godidog yn enwedig ym mis Gorffennaf. Yn ol bobl y tywydd, mi brofon ni wres mawr efo tymereddau'n cyrraedd dros 30 gradd Celsius ar adegau. Pwy sy angen gwyliau estron?!

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur i mi. Yn ol ym mis Mehefin, mi sefais i arholiad Cymraeg yn Wrecsam, sef 'Defnyddio'r Gymraeg fel Ail Iaith'. Mae'r arholiad hwn yn cyfateb i'r un lefel a GCSE yn Lloegr. Mi gafodd yr arholiad ei gynnal dros ddiwrnod efo'r elfennau darllen, dealltwriaeth a gwrando yn y bore ac yr sgwrs/cyfweliad yn y prynhawn. Roedd rhaid i mi aros tan wythnos gyntaf y mis Awst am y canlyniadau. Mi gyrhaeddwn nhw ar y garreg ddrws wythnos cyn yr Eisteddfod. Am briodol! Ro'n i'n falch o ddarllen yr oeddwn i wedi cyflawni 'Rhagoriaeth' efo marc o 90%. Mi ges i fy synnu ac roedd hi'n dda o weld bod gwaith y flwyddyn ddiwetha wedi talu ar ei ganfed.

Yn ystod wythnos gyntaf y mis Gorffennaf, mi arhosais i yn Nolgellau er mwyn mynychu'r Ysgol Haf yn y Coleg Meiron Dwyfor. Y cwrs Cymraeg cyntaf yng Nghymru oedd hwn i mi ac oedd hi'n dipyn bach o her, ond mi fwynheuais i'r wythnos achos i ni edrych ar wahanol agweddau'r iaith Gymraeg a llenyddiaeth. Mi ymwelais i ag Abermaw, crwydro o gwmpas Dolgellau droeon ac aeth am dro hyfryd, yn heulwen y prynhawn, ar 'The Precipice Walk' efo dysgwyr eraill a oedd yn mynychu'r un cwrs yr wythnos honno.

Ar ddydd Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod, mi fynychais i seremoni arbennig ym Maes D ble derbyniais i fy nhstysgrif ar y llwyfan. Mi gafodd y tystysgrifau eu cyflwyno gan Betsan Powys, a gafodd ei phenodi'n ddiweddar fel Golygydd Rhaglenni Radio Cymru.

Mi dreulion ni dri diwrnod arall ar y maes yn mwynhau'r perfformiadau, y stondinau, awyrgylch yr wyl a chwrdd a ffrindiau. Rhaid i mi ddweud yr oedd gynnwng ni

let moethus yn ystod yr wythnos honno. Mi arhoson ni mewn bwthyn hyfryd yng Nglyn Ceiriog a gafodd ei leoli ar ben lon gul sy'n arwain at hen chwarel lechi. Mae'r olygfa o ardd y bwthyn mor fythgofiadwy ac oni bai am y glaw dyfal ddydd Llun, mi fasai'r tywydd wedi bod yn berffaith. Wedi dweud hynny, fedra i ddim cwyno o gwbl. Mi gawson ni amser braf.

O ran y dyfodol agos, dw i'n bwriadu dechrau 'Cwrs Meistrolï' efo Prifysgol Bangor ym mis Medi. Gobeithio y bydda i'n sefyll yr arholiad cyfatebol ar ol i mi orffenn y cwrs. Mwy o waith i mi, ond mae'r holl waith yn werthfawr achos fy mod i wedi cwrdd a chymaint o bobl arbennig trwy ddysgu'r iaith Gymraeg ac mi fedra i ddweud bod yr iaith wedi cyfoethogi fy mywyd.

Mae gen i grys coch, a brynais i yn y Bala eleni, efo'r geiriau 'Cymraeg Am Byth' arno fo. Mae hynny'n crynhoi pethau'n dda iawn i mi.

Martin Coleman



Canu Cloch

Cofiaf brynu hen feic drwm amser maith yn ôl ym mhentre Forres, pan oeddwn yn gwasanaethu yn y llu awyr yng Ngogledd yr Alban. Hen feic heddwas yr oedd; wel dyna'r stori dyn y siop sydd wedi i'w werthu fe i fi, tabeth.

Cofiaf fynd yn ôl ac ymlaen rhwng Forres, lle o'n i'n byw, a'r orsaf RAF Kinloss, lle o'n i'n hyfforddi criwiau i hedfan awyren enw 'Shackleton' fel peiriant milwrol y Rhyfel Oer. Cofiaf yn dda iawn tywydd garw gaeafol gogledd yr Alban, yn enwedig y gwyntoedd mor cryf mai, nawr ac yn y man, yn peri i mi fynd oddi ar y beic a gwthio fe. Ond, yn anad dim, cofiaf cloch y beic; un fawr, rwdlyd, hen ffasiwn gyda llais uchel iawn, ond ar yr un pryd, llais mor soniarus, mor felys, mor urd-

dasol. Yr oeddwn yn hoff iawn yr hen feic drwm ond yn dotio ar ei gloch, a dweud y gwir.

Nawr ac yn y man yr oedd y beic yn hedfan mewn Shackleton gyda fi a wedyn yr oeddwn i'n canu'r gloch yn lleoedd fel Norwy a Gwlad yr Iâ; rhyngwladol yw'r iaith cloch beic cofiwch, a bron bob tro mae'r cerdddwyr ymhobman yn gwenu ac yn chwifio pan glywed ei llais hoenus.

Bythgofiadwy roedd un tro pan yr oedd rhyw fath o ryfel ffug yn mynd ymlaen a ninnau yn byw ar maes awyr Wick, ger John o Groats, am bythefnos mewn pebyll. Ar ôl hedfan am oriau maith dros y moroedd gogleddol roedd diwrnod o seibiant, a dyma fi yn mynd ar gefn fy meic at y goleudy ar benrhyn Noss. Cefais groeso mawr iawn gan geudwad y Goleudy ac, am yr unig dro ym mywyd, yn cael fy arwain trwy goleudy gyda esboniad am bopeth gan gynnwys gwaith hollol unig y dyn cyfeillgar yna.

Yn ôl at ngwaith trannoeth a ninnau yn amddiffyn y bwlch rhwng Gwlad yr Iâ ac Ynysoedd Ffaröe yn erbyn y 'gelyn' sef llong danfor y Llynges Brydeinig yn cymryd ar ei bod yn gelyn; gwaith hollol cyfrinachol bryd hynny ond bellach mae popeth ar gael ar y We! Bob tro yr oedden yn dal y llong danfor, tra'n ceisio sleifio trwy'r bwlch, dyna ni'n canu cloch arni. Nage, nage, nid yn canu cloch ar fy hen feic ond yn côd Morse at ein pencadlys!

Ymhen yr hir a'r hwyr, yn siom enfawr i finnu, bu rywun lladrata fy hen feic. Felly fe brynnais Raleigh newydd sbon gyda 'Sturmeý Archer Three Speed', ond methais yn llwyr i gael hyd i gloch mawr a bu raid i mi ddefnyddio un fach fodern bitw. Nes ymlaen, ar wyliau yn Sri Lanka, dyma fi'n ffeindio cloch yn hollol yr un fath yr hen un; a dw i ar ben fy nigon yn canu fe bron bob dydd bellach!

Geirfa.

Yn anad dim *above all*.

Nawr ac yn y man *now and then*

Ar gefn fy meic *on my bike*

Yn cymryd ar *pretending*

Ar y We *on the Internet (the Web)*

Canu cloch ar *to blow the whistle on*

Ymhen yr hir a'r hwyr *in the fullness of time*.

Ar ben ei digon *on top of the world*

Cael hyd i *to find*.

John Vivian Harris

Ymadroddion Defnyddiol

iawn 'te - ok then
a dweud y gwir - to tell the truth
mewn gwirionedd - in fact, in truth
gyda llaw - by the way
beth bynnag - whatever, anyway
i'r dim! - perfect!
'tydy - isn't it?
nerth dy ben - with all your might
yr union beth - just the thing
rhoi wybod i mi - let me know

Phrases which mean 'y'know'

sti
timod
chimod

Phrases which mean 'honestly'

yn onest
wir i ti
wir i chi
wir yr
yn wir

'Hynny' phrases

ar hyn o bryd - at the moment
hyd yn hyn/hyd yma - so far, till now, still, yet
hyd hynny - up to that time
hyn oll - all this
fel hyn - like this, in this way
fel hynny/fel 'ny - like that, in that way
bryd hynny/bryd 'ny - at that time
wedi 'ny - after that, then
erbyn hyn - before this, by now, so far
serch hynny - however, all the same, nonethe-
less, despite that
hyn o dro - on this occasion

Vague time phrases

bob tro / bob amser - every time, each time
y tro cyntaf - the first time
y tro yma - this time
trwy'r amser - all the time
yn ystod - during
fel arfer - usually
o dro i dro - occasionally
yn aml - often



DWLC Rhaglen
2013 – 2014



Dydd Sadwrn 21-9-13
Gweithdy Cymraeg
(Cwrdd yn adeilad WEA Derby)

Dydd Sadwrn 19-10-13
Ysgol Undydd Cymraeg Derby
Tŷ Cwrdd y Crynwyr

Dydd Sadwrn 9-11-13
Gweithdy Cymraeg
Tŷ Cwrdd y Crynwyr

Dydd Sadwrn 14-12-13
Gweithdy Cymraeg
Tŷ Cwrdd y Crynwyr

Dydd Sadwrn 11-1-14
Tŷ Cwrdd y Crynwyr
Gweithdy Cymraeg

Dydd Sadwrn 8-2-14
Tŷ Cwrdd y Crynwyr
Gweithdy Cymraeg

Dydd Sadwrn 8-3-14
Tŷ Cwrdd y Crynwyr
Gweithdy Cymraeg

Dydd Sadwrn 12-4-14
Gweithdy Cymraeg
Tŷ Cwrdd y Crynwyr

Dydd Sadwrn 10-5-14
Gweithdy Cymraeg
Tŷ Cwrdd y Crynwyr

Dydd Sadwrn 7-6-14
Gweithdy Cymraeg
Tŷ Cwrdd y Crynwyr